

**Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn**  
**Answers to Questions not reached in Plenary**  
**05/02/2008**

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

**Cwestiynau i'r Prif Weinidog**  
**Questions to the First Minister**

**Information Technology in Education**

**Technoleg Gwybodaeth mewn Addysg**

**Q11 Darren Millar:** Will the First Minister make a statement on the use of IT in education in Wales? OAQ(3)0687(FM)

**C11 Darren Millar:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddefnyddio TG mewn addysg yng Nghymru? OAQ(3)0687(FM)

**The First Minister (Rhodri Morgan):** We recognise the transformational potential of IT in education in changing the way learners learn and ensuring that learners of all ages are equipped to take advantage of new technology. We are integrating technology into our schools, colleges and higher education institutions.

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Yr ydym yn cydnabod potensial trawsffurfiol TG mewn addysg o ran newid y ffordd y mae dysgwyr yn dysgu a sicrhau bod dysgwyr o bob oedran yn gymwys i fanteisio ar y dechnoleg newydd. Yr ydym yn integreiddio technoleg i'n hysgolion, colegau a sefydliadau addysg uwch.

**Service Delivery Boards**

**Byrddau Darparu Gwasanaethau**

**Q12 Alun Davies:** Will the First Minister give an update on Welsh service delivery boards following the recommendations of the Beecham report? OAQ(3)0701(FM)

**C12 Alun Davies:** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fyrddau darparu gwasanaethau Cymru yn dilyn argymhellion adroddiad Beecham? OAQ(3)0701(FM)

**The First Minister:** Since the local service boards prospectus was published a year ago, we have established six pilots and are working closely with them on the model to ensure that the boards add value for citizens via joint leadership and action where necessary to integrate services and make best use of resources.

**Y Prif Weinidog:** Ers i ni gyhoeddi prospectws y byrddau gwasanaethau lleol flwyddyn yn ôl, yr ydym wedi sefydlu chwe pheilot ac yn cyd-weithio'n agos â hwy ar y model er mwyn sicrhau bod y byrddau'n ychwanegu gwerth i ddinasyddion. Mae hyn yn golygu arweinyddiaeth a gweithredu ar y cyd lle bo angen i integreiddio gwasanaethau a gwneud y defnydd gorau o adnoddau.

**Heddlua**

**Policing**

**C13 Bethan Jenkins:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am drafodaethau y mae wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch heddlua yng Nghymru?

**Q13 Bethan Jenkins:** Will the First Minister make a statement on discussions he has had with the UK Government on policing in Wales? OAQ(3)0688(FM)

OAQ(3)0688(FM)

**Y Prif Weinidog:** The Minister for Social Justice and Local Government is in regular contact with Home Office Ministers on policing issues, and I have also discussed policing with the Secretary of State for Wales.

**The First Minister:** Mae'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol mewn cysylltiad rheolaidd â Gweinidogion y Swyddfa Gartref ynghylch materion heddlua, ac yr wyf fi hefyd wedi trafod heddlua gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

#### **Ambitions for the Welsh Assembly Government**

#### **Dyheadau ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru**

**Q14 Nick Bourne:** Will the First Minister outline his ambitions for the Welsh Assembly Government over the next six months? OAQ(3)0676(FM)

**C14 Nick Bourne:** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei ddyheadau ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru dros y chwe mis nesaf? OAQ(3)0676(FM)

**The First Minister:** Over the next six months, the Assembly Government will pursue a progressive programme to meet the commitments outlined in 'One Wales'. For example, we will roll out implementation of the single investment fund from 1 April, and ensure arrangements for the foundation phase, Welsh baccalaureate and revised curriculum for September.

**Y Prif Weinidog:** Dros y chwe mis nesaf, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn dilyn rhaglen flaengar i fodloni'r ymrwymadau a amlinellir yn 'Cymru'n Un'. Er enghraifft, byddwn yn cyflwyno'r gronfa fuddsoddi sengl o 1 Ebrill, ac yn sicrhau trefniadau ar gyfer y cyfnod sylfaen, bagloriaeth Cymru a'r cwricwlwm diwygiedig ar gyfer mis Medi.

*Tynnwyd cwestiwn 15, OAQ(3)0692(FM), yn ôl. Question 15, OAQ(3)0692(FM), was withdrawn.*